

Astudiaeth Achos 6

Rheoli Perfformiad Sefydliadau

Gwasanaeth newydd i oedolion sy'n rhoi gofal yn y cartref yw Bettercare, sy'n cael ei sefydlu i ddarparu gofal a chymorth i unigolion yn ardal Caerdydd.

Mae rheolwr y sefydliad eisiau datblygu dangosyddion a dulliau ar gyfer mesur y ddarpariaeth gwasanaeth gofal er mwyn eu galluogi i werthuso eu perfformiad a hefyd i fodloni'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol.

Nodwyd bod y Safon Alwedigaethol Genedlaethol (NOS) **SCDLMC E2 Arwain wrth reoli perfformiad darpariaeth gwasanaeth gofal** yn ymdrin â'r elfennau allweddol gofynnol.

Fel gyda phob NOS, ceir ystod eang o feini prawf perfformiad y byddai'n rhaid eu hystyried. Gyda'r safon hon, ceir 4 prif faes sy'n darparu strwythur trosfwaol ar gyfer y modd y gellir cyflawni gwaith i ddatblygu dangosyddion i fesur y darpariaeth gwasanaeth:

- Nodi dangosyddion perfformiad darpariaeth y gwasanaeth a dulliau mesur.
- Rheoli gweithrediad systemau, gweithdrefnau ac arferion i fonitro a mesur perfformiad y gwasanaeth.
- Cynnal gwerthusiad beirniadol o berfformiad y gwasanaeth yn ôl dangosyddion a gytunwyd.
- Cynnal gwerthusiad beirniadol o effeithiolrwydd systemau, gweithdrefnau ac arferion mesur perfformiad.

Nodi dangosyddion perfformiad darpariaeth y gwasanaeth a dulliau o fesur y rhain

Mae'r adran hon yn edrych ar gamau cychwynnol y gwaith sy'n rhaid ei gyflawni ac yn nodi sut y dylai'r sefydliad gynnwys pobl ac unigolion allweddol wrth ddatblygu dealltwriaeth o sut a pham y mae angen mesur perfformiad. Mae'n edrych hefyd ar ffynonellau a dulliau y gellir eu defnyddio i ddatblygu'r dangosyddion perfformiad priodol a phwy ddylai fod yn rhan o'r broses.

E.e: P1 "sichrau bod unigolion, pobl allweddol a phobl eraill yn cael eu cynorthwyo i ddeall y gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol i fesur perfformiad y ddarpariaeth gwasanaeth".

Rheoli gweithrediad systemau, gweithdrefnau ac arferion i fonitro a mesur perfformiad y gwasanaeth

Mae'r adran hon yn symud ymlaen at y ffordd y mae'r sefydliad a'r staff yn gweithredu'r systemau i fonitro a mesur perfformiad y darpariaeth gwasanaeth a'u rôl yn y gwaith o ddefnyddio'r systemau'n briodol i gasglu'r data angenrheidiol ar gyfer gwneud hyn.

E.e: P10 "sichrau bod unigolion, pobl allweddol a phobl eraill yn cael eu cynorthwyo i gyfrannu at fonitro a mesur perfformiad y ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt".

Cynnal gwerthusiad beirniadol o berfformiad y gwasanaeth yn ôl dangosyddion a gytunwyd

Mae'r rhan hon o'r NOS yn amlinellu pwysigrwydd dadansoddi a gwerthuso'r data, a defnyddio'r canlyniadau i nodi meysydd ar gyfer gwella a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gweithredu.

E.e: P16 "dehongli'r dadansoddiad o'r data a gasglwyd er mwyn adrodd ar ddangosyddion perfformiad a fodlonwyd a meysydd i'w gwella."

Cynnal gwerthusiad beirniadol o systemau, gweithdrefnau ac arferion mesur perfformiad

Mae'r maes olaf yn nodi sut y dylai'r sefydliad werthuso'r systemau a'r gweithdrefnau a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu data, a gweithredu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

E.e: P24 "arwain gwaith gydag unigolion, pobl allweddol a phobl eraill i ddiwygio dangosyddion perfformiad ar gyfer monitro a mesur perfformiad y ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol".

Mae ystod eang o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n tanategu'r NOS hon ond mae'r rhai a restrir isod yn benodol ac yn cyfeirio'n arbennig at reoli perfformiad y ddarpariaeth gwasanaeth gofal sy'n rhaid i staff eu gwybod neu eu datblygu.

K21	Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cyflawni canlyniadau positif i unigolion
K22	Sut i reoli adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n cyrraedd targedau a chyflawni canlyniadau positif i unigolion
K23	Sut i wahaniaethu rhwng allbynnau a chanlyniadau
K74	Safonau ymarfer, safonau gwasanaeth a chanllawiau perthnasol i'r lleoliad gwaith
K79	Sut i arwain a rheoli ymarfer sy'n cyflawni canlyniadau positif i unigolion
K81	Sut i ddatblygu systemau, arferion, polisiau a gweithdrefnau
K82	Sut i weithredu, monitro a gwerthuso systemau, arferion, polisiau a gweithdrefnau
K98	Cynnal gwerthusiad beirniadol o ddamcaniaethau, dulliau a modelau rheoli perfformiad, sicrhau a rheoli ansawdd
K99	Gweithdrefnau, meini prawf, dulliau a dangosyddion perthnasol ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaeth yn cynnwys gofynion rheoleiddio a chofrestru
K100	Sut i gasglu, dadansoddi'n feirniadol a dehongli data ansoddol a meintiol sy'n cyfrannu at reoli perfformiad

Yn yr achos hwn, mae'r NOS yn rhoi canllaw manwl ar yr hyn sydd angen ei ystyried wrth ddatblygu dangosyddion a systemau i fesur perfformiad y ddarpariaeth gwasanaeth.